# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ATAL A DIWYGIO GOFAL CYMDEITHASOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 20 MAWRTH 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E J King | E T Kirchner | T M White |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Harris | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Sara Harvey | Cyfarwyddwr Rhaglen Ranbarthol, Rhaglen Bae'r Gorllewin |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J C Bayliss, J P Curtice, H M Morris a/ac R V Smith

52 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

53 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2017 fel cofnod cywir.

54 **CYFLWYNIAD - ASESIAD POBLOGAETH**

Rhoddodd Sara Harvey, Cyfarwyddwr Rhaglen Ranbarthol, Rhaglen Bae'r Gorllewin gyflwyniad ar 'Asesiad Poblogaeth' (http://www.westernbaypopulationassessment.org/cy/home-welsh/ ). Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y canlynol: -

- Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin
- Gofynion Allweddol
- Beth mae'r asesiad poblogaeth yn ei gynnwys?
- Pam ein bod yn cynnal yr asesiad poblogaeth?
- Pynciau
- Gwybodaeth feintiol

- Gwybodaeth ansoddol
- Papurau Pwnc
- Asesiad poblogaeth - 3 Haen
- Gwe-offeryn digidol yr asesiad poblogaeth
- Ffocws hyd yma

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r swyddogion cyflwyno, a ymatebodd yn briodol. Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n ymwneud â: -

- Gwerthuso'r hyn oedd wedi'i wneud yn dda, yr hyn nad oedd wedi'i wneud yn dda a'r gwersi a ddysgwyd.
- Panel Rhanbarthol Dinasyddion
- Pwy oedd wedi pennu'r pynciau a'r posibiliad o ddiwygio'r pynciau neu ychwanegu atynt.
- Asesiad poblogaeth fel swyddogaeth sy'n ategu trefniadau comisiynu lleol
- Pryderon am yr asesiad poblogaeth a sicrhau bod y preswylwyr yn cael y canlyniad gorau
- Bylchau a meysydd sydd fel petaent wedi'u colli o'r asesiad poblogaeth
- Gwaith cynnwys a grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr asesiad poblogaeth.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y cyflwyniad.

## 55 <u>**IECHYD A DEIET YN ABERTAWE - SIWGR.**</u>

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Iechyd a Deiet yn Abertawe - Siwgr'. Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Yr enwau gwahanol ar gyfer siwgr
- Cyfrifoldeb cenedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth o ddeiet a siwgr, yn enwedig wrth ystyried darparu bwyd a labelu gwell ac ymwybyddiaeth.
- Carbohydradau
- Meysydd allweddol i'w blaenoriaethu
- Y gost - effaith amddifadedd ar ddewisiadau bwyd iach
- Dŵr am ddim mewn parciau
- Addysg mewn ysgolion ar ddeiet a siwgr
- Darparu mwy o gyngor ar y ffyrdd o fwyta llai o siwgr
- Model Brighton a Hove - ‘Sugar Smart Brighton & Hove’
- Hysbysebu a noddi

Nododd y Cadeirydd ei bod wedi ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach am eglurhad am ba feysydd i'w blaenoriaethu.

**PENDERFYNWYD** dylid nodi cynnwys yr adroddiad a'r llythyr at y Cynghorydd Mark Child, Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach.

56 **ADBORTH GAN OFALWYR. (LLAFAR)**

Rhoddodd y cadeirydd ddiweddariad ar yr adborth gan ofalwyr. Roedd trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol yn bennaf: -

- Cwrdd â'r gofalwyr er mwyn nodi'r meysydd allweddol i'w blaenoriaethu
- Asesiad Gofalwyr - yr hyn y mae'n ei gynnwys ac a oes gan ofalwyr ddigon o ymwybyddiaeth o'u hawl i ofyn am asesiad
- Taliadau uniongyrchol ac a allent helpu gofalwyr
- Bathodynnau adnabod i ofalwyr
- Seibiant dros nos/ gwasanaethau seibiant
- Gwasanaethau trydydd parti e.e. y Groes Goch

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi cynnwys y diweddariad.

57 **RHAGLEN WAITH 2016/17.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y rhaglen waith ar gyfer 2016/2017 am adolygiad.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y rhaglen waith.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.00 pm

**CADEIRYDD**